

Cwpan Efe Pêl-droed a Phêl-rwyd

Cynhelir noson bêl-droed 5-yr-ochr ar gyfer plant oed cynradd (Blwyddyn 3–6) ar gae Ysgol Gynradd Llanrug, nos Wener, Mehefin 27. Dechreuir am 6.00 o'r gloch, a daw'r chwarae i ben erbyn 9.00 o'r gloch.

Dyma fydd y pedwerydd tro i ni gynnal y gystadleuaeth ar gyfer ysgolion Sul y fro. Mae croeso i fechgyn a genethod gymryd rhan eleni eto.

Gobeithiwn allu cynnal cystadleuaeth bêl-rwyd i enethod blwyddyn 3–6 yr un noson noson ar fuarth yr Ysgol.

Eleni eto, bydd egwyl fer yn ystod y noson er mwyn rhoi cyfle i'r plant a'r gynulleidfa glywed neges syml am y Ffydd.

Rhowch wybod i Andrew os bydd tim o'ch Ysgol Sul yn cymryd rhan er mwyn iddo allu trefnu'r gemau.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mehefin 8

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr T Alun Williams

Mehefin 15

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mehefin 22

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Miss Eleri Jones

Mehefin 29

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Jones

Ffoniwch
0792 9916181 neu anfon e-bost at:
gosodcoeden@hotmail.com

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Mehefin 15: Oedfa Deulu am 10.00 o'r gloch a gwasanaeth yng ngofal y Gweinidog am 5.00 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Mehefin 10: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Nos Wener, Mehefin 13: CIC yn y festri am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mehefin 15: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg Hugh Pritchard, Llangefni. Cynhelir yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mehefin 15: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Mehefin 8

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Mehefin 15

10.00 a.m. - Y Parchg Hugh Pritchard
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Hugh Pritchard

Mehefin 22

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mehefin 29

10.00 a.m. - Mr Andrew Settatee
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Dewi Jones

5 ...

4 ...

3 ...

2 ...

1 ...

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 595 – Y Sulgwyn, 08 Mehefin, 2014



Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch, a gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan Mr Alun Williams, Caernarfon. Croeso iddo a diolch am ei wasanaeth.

Byddaf yn arwain y ddwy oedfa yn Llanberis am 10.00 a 5.00 o'r gloch. Cynhelir yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Byddaf yn arwain yr oedfa yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at aelodau'r eglwysi sydd heb fod yn dda ar hyn o bryd. Dymunwn adferiad buan a nerth Duw iddynt. Gwyddom bod amryw ohonoch yn methu dod i'r oedfaon ar hyn o bryd, a chithau wedi arfer bod yn rhan o gymdeithas yr eglwys ar hyd y blynyddoedd.

Cymorth Cristnogol

Diolch yn fawr iawn am bob cyfraniad a gafwyd tuag at gasgliadau Wythnos Cymorth Cristnogol.

Roedd y cyfanswm yn Llanberis a Nant Peris eleni yn £975.09 (sef £760.09 yn Llanberis a £215 yn Nant Peris).

Fe gofiwch i ni gyhoeddi bythefnos yn ôl bod y casgliad yn Neiniolen eleni yn £950.

Diolch yn fawr iawn unwaith eto i bawb a fu'n casglu, a diolch yn arbennig i drefnwyr y casgliad yn Neiniolen, Mr a Mrs Neville a Janes Thorman Jones am eu gwaith eleni eto.

Bore coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch, ddydd Mawrth, Mehefin 10 er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

CIC

Cynhelir Cyfarfod nesaf CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch, nos Wener, Mehefin 13.

Capel Coch

Fel y gwelsoch, o bosibl mae'r arwydd 'Ar werth' wedi ei osod o flaen Capel Coch ers tu mis, ac yn ôl a ddeallwn gan yr Henaduriaeth a'r arwerthwr, mae mwy nag un wedi dangos diddordeb mewn prynu'r capel. Mae un cynnig wedi ei wneud. Penderfynwyd aros am fis cyn derbyn y cynnig er mwyn gweld a ddaw cynigion eraill amdano. Hyd yma, nid ydym fel swyddogion yn gwybod beth yw bwriadau neb sydd wedi dangos diddordeb yn y capel. Mae'n debyg y bydd unrhyw gynnig a gawn am y capel yn amodol ar sicrhau caniatâd cynllunio ar ei gyfer.

Sul anodd

Y Sulgwyn ydi un o Suliau anoddaf y flwyddyn, ac nid yw'n mynd damaid haws wrth i'r blynyddoedd fynd heibio.

Dyma'r Pentecost – Sul cofio tywalltiad yr Ysbryd Glân ar y disgyblion. Mae'n un o'r Suliau anoddaf am ein bod yn ymwneud â rhywbeth sydd mor ddieithr ac anghyfarwydd.

Ond arhoswch funud. Onid ydi gwyliau eraill yr Eglwys Gristnogol yn ymwneud â phethau anghyfarwydd a dieithr? Beth am y Nadolig, a'i sôn am wryf yn rhoi genedigaeth i blentyn bach, angylion a'u neges, a bugeiliaid a doethion yn cyrchu at breseb lle gorweddaid babi bach oedd yn Fab Duw a brenin byd? Go brin y medrwn honni bod pethau felly yn rhan o fywyd pob dydd pobl. Ac eto, rydym yn ddigon cyffyrddus yng nghanol y Nadolig a'i neges.

A dyna'r Pasg wedyn; mae honno hefyd yn sôn am bethau dieithr. Dienyddio dyn da, a hwnnw'n atgyfodi o'r bedd o fewn tridiau. Welwn i mo hynny bob dydd! Ond nid yw hynny'n golygu na fedrwn adrodd yr hanes. Rydym yr un mor gyffyrddus yn sôn am y Groglith a'r Pasg.

Ond mae'r Sulgwyn yn wahanol. Mae gennym lai i'w ddweud am yr ŵyl hon. Mae'n wir bod gan y Beibl lai i'w ddweud amdani. Ond mae'r Sulgwyn yn rhan o stori Iesu Grist a stori Eglwys Dduw; ydi, lawn cymaint â'r Nadolig a'r Pasg.

Mae'n elfennau dieithr i'r hanes hwn, wrth gwrs – tafodau tân a gwynt nerthol. Ond nid dyna sy'n gwneud y Sulgwyn yn anghyfarwydd i ni heddiw. Ydi gwynt nerthol yn fwy dieithr na'r golau llachar a welodd y bugeiliaid yn llenwi'r awyr? Ydi disgyriad tafodau tân yn fwy

o ryfeddod na chorff marw yn codi o'r bedd? Nac ydi, siwr.

Yr hyn sy'n gwneud y Sulgwyn yn ddieithr yw'r ffaith nad yw'n rhan o'n profiad ni. O'r holl wyliau Cristnogol, y Sulgwyn yw'r un sy'n cyflwyno'r hyn sydd i fod yn brofiad uniongyrchol i ni. Mae'r Nadolig yn cyhoeddi bod Duw gyda ni yn nyfodiad Crist i'r byd. Mae'r Pasg yn dweud bod Duw wedi rhoi Crist drosom ni ar Galfaria. Y Sulgwyn sy'n datgan bod Duw ynom ni trwy'r Ysbryd Glân. Yr Ysbryd a dywalltwyd ar y Pentecost yw ein nerth a'n goleuni a'n grym ninnau heddiw. Ond mor brin y gall ein profiad o hyn fod.

Ni fyddem yn mynd mor bell â'r bobl yn Effesus a ddywedodd wrth Paul, 'Ni chlywsom hyd yn oed fod yna Ysbryd Glân' (Actau 19:2). Ond mae grym yr Ysbryd yn ddieithr i ni. Nid ein bod yn gwbl amddifad o'r Ysbryd chwaith. Os ydym yn credu yn yr Arglwydd Iesu, trwy gymorth yr Ysbryd y mae hynny. Os ydym yn deall unrhyw beth am yr Efengyl, trwy oleuni'r Ysbryd y mae hynny. Os ydym yn caru Duw ac yn gwasanaethu Iesu Grist o gwbl, trwy nerth yr Ysbryd y mae hynny hefyd.

Ond mae yna fwy, a'r ffaith ein bod yn gwybod hynny, sy'n gwneud y Sulgwyn yn ddychryn. Wyddon ni ddim beth i'w wneud â'r Ŵyl. Mae'r hanes yn Actau 2 yn ein hanesmwytho, fel y mae darllen am dywalltiadau'r Ysbryd yn hanes yr Eglwys yn medru ein hanesmwytho. Beth wyddom am yr Ysbryd yn symud mewn diwygiad yn ein plith? Faint wyddom am yr Ysbryd yn ein cyffroi i gyhoeddi'r Efengyl yn eofn? Beth wyddom am yr Ysbryd yn cynhesu'n calonnau wrth i ni glywed y gwirionedd am Iesu Grist? Ceisiwn o'r newydd yr Ysbryd a'i oleuni a'i nerth.